Comisiwn Bevan Commission



# Iechyd a Lles Gweithwyr

## *Crynodeb Gweithredol*

Cyfres o Gyfarfodydd Bord Gron â Byd Diwydiant, Dysgu ar y Cyd

Ebrill 2025

Comisiwn Bevan Commission | CBI | CIW HWW Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales

Comisiwn Bevan Commission

**Cyfarfod Bord Gron Iechyd a Lles Gweithwyr**

**Crynodeb Gweithredol**

***Cyfres o Gyfarfodydd Bord Gron â Byd Diwydiant, Dysgu ar y Cyd***

## Pam Mae Cefnogi Iechyd Gweithwyr Bellach yn Bwysicach Nag Erioed

Nid yw cefnogi iechyd gweithwyr yn opsiynol bellach, nac yn gyfrifoldeb yr NHS yn unig. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym, cynnydd mewn afiechyd cronig, a chynnydd mewn anghydraddoldebau iechyd, mae nifer y blynyddoedd o fywyd iach yn gostwng hyd yn oed wrth i ddisgwyliad oes gynyddu. Erbyn 2044, disgwylir i'r boblogaeth dros 65 oed yn y DU dyfu saith gwaith yn gyflymach na'r rhai o dan 65 oed, gan greu cymhareb ddibyniaeth o 2:1. Ar yr un pryd, rhagwelir cynnydd sylweddol mewn dementia, cyflyrau iechyd meddwl a chanser.

Bydd y dirwedd newidiol hon yn cynyddu'r pwysau ar y gweithlu a'r gwasanaethau cyhoeddus. Felly mae'n hanfodol i gyflogwyr chwarae rôl ganolog wrth feithrin gweithluoedd gwydn ac iach i ddiogelu lles unigolion, ysgogi cynhyrchiant busnes, a chefnogi'r economi ehangach. Gyda salwch tymor hir eisoes yn costio £1.5 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, mae'r achos dros weithredu rhagweithiol ac ataliol gan gyflogwyr yn glir.

## Ynglŷn â'r Gyfres o Gyfarfodydd Bord Gron

Mewn ymateb i'r heriau hyn, cynhaliodd Comisiwn Bevan gyfarfod bord gron â byd diwydiant ym mis Mai 2024 gan ganolbwyntio ar iechyd a lles gweithwyr. Yn sgîl hyn, cydnabuwyd pwysigrwydd cydweithio a dysgu ar y cyd i ysgogi newid cadarnhaol a chynaliadwy. Mewn partneriaeth â CBI Cymru, Gweithio'n Iach Cymru, Busnes yn y Gymuned, a Diwydiant Cymru, lansiodd Comisiwn Bevan y gyfres 'Dysgu ar y Cyd'. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys tri digwyddiad thematig ar:

1. Iechyd a Lles Gweithwyr
2. Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
3. Dysgu gan Ddiwydiant

Daeth y digwyddiad cyntaf ag arweinwyr o fyd diwydiant Cymru ynghyd i archwilio'r heriau a'r atebion cyffredin i gefnogi iechyd a lles gweithwyr. Amlygodd hefyd yr angen am gynghrair sy'n meithrin cydweithio ar draws sectorau, dysgu ar y cyd, ac arloesi ym maes lles y gweithlu.

## Dealltwriaeth ac Argymhellion Allweddol

Cydnabu cyflogwyr nifer o gyfleoedd i wella iechyd, lles a gwydnwch y gweithlu:

- Datblygu a gwreiddio strategaethau lles sefydliadol clir.
- Gwella sgiliau rheolwyr i arwain ar les, cyfathrebu a chynhwysiant.
- Darparu trefniadau gwaith hyblyg ac amgylcheddau cynhwysol.
- Cynnig mynediad at adnoddau megis cymorth iechyd meddwl, Rhaglen Cymorth i Weithwyr, iechyd galwedigaethol a hyfforddiant.
- Creu diwylliant o gysylltiad, llawenydd a diogelwch seicolegol.
- Dathlu amrywiaeth, lleihau stigma, a hyrwyddo tegwch mewn mynediad at gymorth.

Hefyd, mynegodd sefydliadau angen am:

- Atgyfeirio symlach at adnoddau iechyd a lles y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- Offer ar y cyd a rhwydweithiau cymheiriaid.
- Pecynnau cymorth ymarferol, cryno, i helpu i osgoi gorlwytho pobl â gwybodaeth.

Er gwaethaf cynnydd, ceir nifer o rwystrau o hyd:

- Stigma ynghylch iechyd meddwl a chyflyrau cronig.
- Arferion gwaith anhyblyg, hen ffasiwn.
- Galluedd a gwybodaeth cyfyngedig, yn enwedig ymhlith busnesau bach a chanolig.
- Nifer llethol o gynlluniau cymorth a mynediad anghyson atynt.
- Cyfyngiadau o ran arian, amser ac adnoddau.

## Casgliad a Galwad i Weithredu

Mae iechyd gweithwyr yn gyfrifoldeb cyffredin ar draws byd diwydiant, maes iechyd y cyhoedd, a'r llywodraeth. Er mwyn meithrin gweithleoedd cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid i gyflogwyr weithredu nawr. Mae Comisiwn Bevan a'i bartneriaid yn hyrwyddo ymagwedd gynhwysol, ataliol a chydweithredol sy'n gwella canlyniadau i weithwyr, busnesau, a'r gymdeithas.

Mae cyfle clir i greu cynghrair genedlaethol o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i iechyd a lles. Drwy gyfuno adnoddau, rhannu dysgu, a gwreiddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gallwn ymateb i heriau heddiw a sicrhau gweithlu iachach, mwy gwydn ar gyfer dyfodol Cymru.

> "*Rydym wrth ein boddau'n gweithio gyda phartneriaid allweddol a chyrff cynrychioliadol ledled byd diwydiant a masnach i rannu a dysgu oddi wrth ein gilydd er mwyn helpu i sicrhau pobl a chymunedau iach, gwydn a dyfeisgar — mae iechyd a gofal yn fusnes pawb ac mae'n fuddiol i ni i gyd.*" Helen Howson, Cyfarwyddwr, Comisiwn Bevan

Comisiwn
Bevan
Commission

School of Management,
Swansea University Bay Campus,
Fabian Way, Swansea SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630